## YR ARAN

Ceir nifer o lwybrau porthmyn pwysig yn yr ardal, er mwyn gyrru'r anifeiliaid i'r Dwyrain tuag at Loegr. Dangoswyd y llwybrau dros fylchau fel Bwlch y Pawl ar fap John Evans o Ogledd Cymru 1795, un ffordd bwysig o borthmyn ar un adeg, fel yr oedd Bwlch y Groes.

**Bwlch Cam SH 975274**

Y tebygrwydd yw mai cam 'anghywir, ffug' sydd fel enw ar y bwlch oherwydd mae yna dwy ffordd allan o'r dyffryn. Ond, ar un adeg yr oedd yr enw yn union uwch gwrs uchaf yr Afon Cedig ar rhai mapiau, cwrs sydd yn gam ac yn gwyro i'r Dwyrain. Ar fap 6" cynnar Bwlch Garn oedd yr enw.

**Bwlch Coediog Uchaf SH 88155**

Nid yw'r bwlch wedi'i enwi ar y map, enw fferm ydyw; ar un adeg roedd yr ardal yn un coediog 'llawer o goed'; mae'r uchaf yn cyfeirio at fferm arall, sy'n is – Bwlchcoediogisaf.

**Bwlch Sirddyn SH 885230**

Bwlch Maes-yr-hirddyn sydd ar y map AO 6" cyfres 1840-80. Maes 'tir agored' + yr + hirddyn 'hwrdd bychan – hefyd yn ffigwrol ar ddyn.

**Bwlch Sycan SH 877175**

Cred rhai mai sycan 'llymru' sydd yma; ond, Bwlch y Sygyn yw'r ffurf a welir ar y mapiau AO cynnar, yn 1838, sef llygriad ar sugnen `cors, mignen' o sugn 'sugnedd, sugnaid' + -yn olddodiad bachigol.

**Bwlch y Cribwr SH 923303**

Cribwr yw'r enw ar un oedd yn cardio gwlân, ac mae'n bosibl bod eu hannedd gerllaw ar un adeg; hefyd, gall yr enw roi synnwyr ffigurol i ddisgrifio sgwrio neu gribo o ryw fath. Ond rhaid cofio'r planhigyn Llysiau'r Cribau, Llysiau'r Cribwr: (Wild Teasel), *Dipsacus fullonum* a oedd yn gyffredin ar un adeg planhigyn defnyddiol er mwyn pannu; hefyd, fe ddefnyddiwyd y pennau sych y planhigyn ar un adeg yn y diwydiant tecstilau i godi'r 'blew' ar frethyn gwlân.

**Bwlch y Dŵr SH 991298**

Gall yr elfen dŵr 'gwlybaniaeth' roi syniad o ardal llaith iawn o fawnog neu chors.

**Bwlch y Fedwen SH 931139**

Mae'r gair bedwen 'coed bedw' yn gysylltiedig a nifer o enwau yn y tirwedd, mae'r gair yn gysylltiedig a'r Cernyweg *besow*, Cernyweg Canol *bedou* 'coed y fedwen', Gwyddeleg *brethe*, Celteg **betu*. Roedd y bedw yn cael ei ystyried yn un o'r coed mwyaf cysegredig, gan symboleiddio dechreuadau newydd. Roedd hefyd yn symbol o lwc, byddai canghennau bedw yn cael eu gosod o amgylch drysau.

**Bwlch y Fenni SH 973333**

Wedi ei enwi ar ol yr afonig Nant y Feni. Bwlch-y-feni 1838 AO.

**Bwlch y Fign SH 882186**

Yn syml iawn, mign 'cors, mignedd, sugnen'; o'r Celteg **mūkinā*, o'r gwreiddyn Indo Ewropeaidd **meug-, meuk-* 'llysnafeddog, llithrig'.

**Bwlch y Fwlet SH 906301**

Mae'n debyg mai bwlaets neu bwlas, sef y ddraenen ddu, oedd enw gwreiddiol y bwlch hwn, o'r Saeseg bullace. Ond, tybed os bowlyd, ffurff llygredig ar bawlyd 'bydr' sydd? Bwlchyfwlet 1835**.** Llawysgrif Jones-Williams, Bwlch-y-fwled 1838 AO, Bwlchyfowlet 1874.

**Bwlch y Gesail SH 835188**
Nid oes bwlch go iawn yma mewn gwirionedd, ond fe welir fwlch ychydig yn is sy'n cysylltu Glasgwm gyda Y Gribyn; neu, enw sy'n dynodi'r llwybr heibio copa Craig Cywarch. Cesail 'cilfach, congl'.

**Bwlch y Groes SH 913233**
Defnyddid croesau yn aml i ddynodi ffiniau, fel arfer gyda nod i ddangos y perchennog.

**Bwlch y Groes Fagl SH 921264**
Ffon swyddogol abad yw'r fagl, fel arfer fe nodwyd y ffurf ar y cerrig neu'r groes bren i ddangos ffin tir eglwysig.

**Bwlch y Pawl SH 921264**
Pawl 'postyn', benthyciad o'r gair Saesneg pole 'post'; unwaith eto'n dynodi ffin. 'i ben bwlch y Pawl' c.1700 Parochialia, Bwlch y Pawl 1795 Evans Map of North Wales.

**Bwlch yr Anges SH 853172**
Fe welir fferm o'r enw Nant yr Henfaes islaw yng Nghwm Cywarch (858173) ar y mapiau presenol. Ar fapiau 6” AO 1840-80 fe welir Bwlch yr Henfaes a hefyd Nant-yr-henfaes i'r fferm; ond, mae map 6” 1888-1915 yn dangos Bwlch yr Anges a'r fferm fel Nant-yr-Anges. Nant yr Hanges 1780 Swyddfa Cofnodion Merionnydd. Ond ar fap AO 1836 fe welir yr enw Nant-yr-Angau; angau 'marwolaeth, difodiant'. Ond, y tebygrwydd yw bo'r gair hang, ang 'cul, tenau' yn enw'r afon.